



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

Mathew Plumb

Lloegr

Dad-ddofi tir ar raddfa fawr

05-08-2020

Mae'r adroddiad hwn wedi'i ysgrifennu gan Mathew Plumb, a dderbyniodd gyllid yn 2020 i ymgymryd â Chyfnewidfa Rheolaeth i edrych ar 'Goedwigaeth gynaliadwy ac atebion ar gyfer atafaelu carbon'. Yn sgil y pandemig (Covid-19), nid oedd elfennau tramor y gyfnewidfa yn bosib.

Safbwyntiau, barn a datganiadau'r awdur a gyhoeddir yn yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrydd yn adlewyrchu barn Cyswllt Ffermio.

1 Cefndir

Golygodd gwella bywiogrwydd ecosystem, ynghyd â chynhyrchu pren, amaeth-goedwigaeth ac eco-dwristiaeth yn fy uned coetir cymysg 5 hectar (ha) yn Sir Fynwy daith angenrheidiol i Knepp Wildland, Dwyrain Sussex.

Cefnodd Knepp ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) ugain mlynedd yn ôl, a dechrau system ffermio ymyrraeth isel yn seiliedig ar ffermio gwartheg, merlod, ceirw, a nifer fechan o foch. Rhoddwyd blaenoriaeth i wasanaethau ecosystem, gydag adfer ecosystemau yn bennaf. Yn gudd ymhob weithred oedd yr arsylwadau empeiraidd a wnaed ar y fferm, gyda'r arsylwadau hynny'n deillio o'r gymuned wyddonol ynghylch colli bioamrywiaeth a newid hinsawdd.

Rhoddwyd y gorau i gnydau â'r, gan gynnwys gwenith gaeaf ac india-corn, buches laeth, defnyddio gwrteithiau, chwynladdwyr, plaladdwyr ac aredig.

2 Amserlen

Rhennir Knepp yn dair system ffermio wahanol, sef y bloc gogleddol, bloc canol a'r bloc deheuol. Y bloc deheuol oedd y mwyaf perthnasol i'r system ffermio yr wyf yn ei sefydlu ar hyn o bryd, ac fe wnaethom gynnal yr hyn, o ystyried y tuedd llystyfiant yr ugain mlynedd diwethaf, y byddwn i'n ei alw'n 'gylchdaith'. Mae oedran a chyfansoddiad y planhigion coediog sydd bellach yn ffynnu yn y bloc hwn yn golygu ei bod yn brysgdir ddigon datblygedig i wneud argraff ar y dychymyg o system goetir wedi'i hau'n wyllt yn bennaf ac sy'n tyfu.

Bydd Lloegr yn cyfyngu ar Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) yn 2028. Bydd Cymru yn gweld diddymu'r Taliad Sengl (SFP) yn 2021. Mae Knepp yn derbyn 14% o'u hincwm



blynyddol gros o BPS, ac maent wedi diogelu'r fferm at y dyfodol i bontio i'r cynllun Rheoli Tir Amgylcheddol (ELM) heb unrhyw anhawster a ragwelir.

Mae cyd-ddigwyddiad o ganlyniad cadarnhaol o system ffermio ymyrraeth isel wedi cynorthwyo Knepp i leihau'r ddibyniaeth ar BPS, ac mae'n codi, yn rhannol, o ofyniad BPS i ddatgan nodweddion anghymwys parhaol (PIF) a nodweddion anghymwys dros dro (TIF).

Mae nodweddion parhaol sy'n benodol i Knepp yn cynnwys rhai aeddfed cynnar, gyda choed derw aeddfed yn rhywogaeth allweddol sy'n cynnal llw o fodau byw eraill.

Mae nodweddion dros dro yn ymwneud â chlwtwr o fieri a phrysgwydd mwy datblygedig sy'n rhagarweiniad ac yn nodweddion cyson o goetir iach a fynychir gan llysyddion mawr. Mae'n gynefin sy'n atseinio'n ôl i olygfa gysgodol, amhenodol o'n dychymyg.

Mae cyd-ddigwyddiad o ganlyniad cadarnhaol yn amlygu ei hun wrth gyflwyno ciconia gwyn, sydd bellach yn nythu mewn derw aeddfed, sydd yn barod wedi denu 30,000 o ymwelwyr i Knepp eleni, gyda'r ymwelwyr yn gwneud defnydd o'r maes parcio â thâl, caffi dros dro, a'r siop fferm.

Mae nodweddion anghymwys dros dro (TIF) yn Knepp, yn benodol y clwtwr o fieri hynny sydd bellach yn cefnogi coed helyg, wedi arwain at gynnydd ym mhoblogaeth y fantell borffor (glöyn byw), sydd, o'i gyfuno â'r disgwyliad o weld organebau eraill mewn perygl ac organebau sy'n gwella, yn arwain at brofiad saffari gwirioneddol gyfareddol.

Mae'r rhan fwyaf o reolwyr tir profiadol wedi hen arfer â gweld hyddod brith, ond am ryw reswm, mae gweld fflach o gyryn yn hyrddio trwy glwtwr o brysgwydd yn sydyn, cipolwg o wyn llygad, gyda gweddill yr hyddgant yn anweledig, yn wefr ysgytwol.

Fel rhywun sydd erioed wedi gweld hwch Tamworth llawn dwf o'r blaen, ac maent wedi cyflwyno moch Kunekune i'w huned tir hefyd, fe gynyddodd fy nisgwyliad a chyffro wrth weld tystiolaeth o gloddio gan yr hychod Tamworth. Ond wrth fynd trwy hen wrych, fe ddiplannodd y disgwyliad a'r cyffro hwnnw pan ddeuthum wyneb yn wyneb â buwch Hirgorn yn rhoi llaeth i'w llo, gyda gweddill yr uned deuluol dim ond metrau i ffwrdd y tu ôl i wrych arall. Bu'n gyfarfod mor llonydd a naturiol, a theimlais yn eithaf drwg yn ddiweddarach y noson honno am i mi anghofio popeth am y Tamworth fel brid!

Wedi stopio yn yr haul tanbaid ar glai caled, y glaswellt yn troi yn lint, tynnodd Charlie Burrell sylw'r grŵp at dyllau bach yn y ddaear. Prin yn filimedr o led, roedd tyllau gwenyn chwys o'n cwmpas ym mhob man. Mae'r pryfed hynod ddiddorol hyn yn chwarae rhan mewn gwella iechyd yr ecosystem y mae aredig, plâu a rheoli chwyn yn ei ddinistrio – y pethau bach sy'n ehangu'r system gyfan.

3 Camau Nesaf

Nid oes amheuaeth mae'r wers bwysicaf yr wyf wedi'i dysgu gan Knepp yw'r pwysigrwydd o yrru a darparu nwyddau cyhoeddus yn unol ag arferion SLM. I wneud hyn, mae angen cynyddu hygyrchedd. Mae dod â'r cyhoedd i fy uned, darparu llety, lluniaeth, profiadau ac addysg sy'n deillio o welliant mewn gwasanaethau ecolegol yn dda i ecoleg, ac yn dda i bobl.

Yn Ebrill 2021, rwy'n bwriadu agor maes gwersylla pedwar llain mewn un llannerch o'm coetir. Bydd gan bob llain toiled compost a chawod dŵr glaw ac yn costio £40 fesul llain fesul noson (uchafswm o bedwar person fesul llain). Dyma'r buddsoddiad gwerth am arian mwyaf y gallaf ei wneud ar hyn o bryd, ac mae'n gweithio'n dda yn Knepp. Bydd cynnig cwrs siarcol a bondocio, rhwydi o goed, bagiau

o siarcol, cynhwysion brechwast a phrydau bwyd parod megis stiw gyda'r nos i gyd yn ychwanegu gwerth.

Mae gosod coridorau gwyrdd rhwng y fferm a'r unedau o goetir trwy glystyrau fferm yn hanfodol i geisio lliniaru newid hinsawdd a chwymp ecosystemau. Heb ddefnyddio'r system hon o reoli tir, mae dyfodol bywyd ar y blaned hon yn ofidus o lwm.

O ran nwyddau cyhoeddus a chadernid economaidd, rwy'n pryderu nad yw unedau fferm yng Nghymru yn barod i bontio'n gyfforddus i'r fframwaith SLM, a chymryd yr ergyd o SFP yn cael ei ddiddymu mor sydyn yn 2021.

4 Negeseuon allweddol i'r diwydiant

1. Gyrru'r newid – systemau ymyrraeth isel yw'r dyfodol.
2. Lles tirwedd – dim ond arferion cydnaws sy'n gynaliadwy.
3. Cysylltedd – cysylltu tirwedd trwy gysylltu unedau fferm a choetir.
4. Mae hygyrchedd yn hanfodol – mae pobl yn cymryd mwy o ddiddordeb yn y ffordd mae bwyd yn cael ei gynhyrchu a'r effaith mae cynhyrchu bwyd yn ei chael ar y dirwedd ac ecosystemau - cynnwys y gymuned.
5. Cynhyrchiant ac ansawdd – dylai cynhyrchiant ostwng wrth i ansawdd a phrisiau gynyddu.